



At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu  
Perfformiad

Dyddiad: Dydd Gwener, 23 Medi  
2022

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 29 MEDI 2022 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 (copi ynghlwm).

### 5 CATEGORïAU YSGOLION YN ÔL DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG (Tudalennau 15 - 26)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Pennaeth Addysg yn amlinellu casgliadau ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar Gategoreiddio Iaith a'i oblygiadau ar gyfer Ysgolion a disgyblion Sir Ddinbych.

10:10 – 11:00

**6 HAFAN DEG, Y RHYL** (Tudalennau 27 - 36)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth Busnes a Chymunedau ar effeithiolrwydd trosglwyddo'r cyfleuster a'r gwasanaethau i ddarparwr allanol, KL Care, gan gynnwys cynnydd y darparwr o ran datblygu ac ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y ganolfan, a'r gwersi a ddysgwyd o Covid-19.

11:00 – 11:30

**7 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 37 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Pwyllgor ddiwygio ei raglen gwaith i'r dyfodol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

11:30 – 11:45

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

11:45

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Carson Irving (Cadeirydd)  
Ellie Chard  
Chris Evans  
Jon Harland  
Carol Holliday

Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd)  
Alan Hughes  
Paul Keddie  
Terry Mendies

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

Terence Flanagan  
Kathleen Jones

Neil Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor yn Neuadd y Dref a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau 14 Gorffennaf 2022 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Jon Harland, Carol Holliday, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Terry Mendies a Gareth Sandilands (Is-gadeirydd).

Roedd yr Aelodau Cyfetholedig ar gyfer Addysg, Kathleen Jones a Neil Roberts, yn bresennol ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen.

Roedd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Gill German, yn bresennol ar gyfer eitemau 6, 7 ac 8.

Roedd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cynghorydd Elen Heaton, yn bresennol ar gyfer eitemau 7 ac 8.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (NS)

Pennaeth Addysg (GD)

Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cymorth Busnes (AL)

Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Gweithredol (DS)

Pennaeth Gwasanaethau Plant (RM)

Prif Reolwyr Addysg (MG) a (JB)

Swyddog Ymgynnwys – Gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (JE)

Cydlynnydd Craffu (RhE)

Gweinyddwr Pwyllgorau, Gwesteiwr (KJ)

Swyddog Gwasanaethau Democraidd, cofnodion (KE)

Arweinydd Systemau GwE – Gogledd Cymru (JC) ar gyfer eitem 5.

**Arsylwyr:** Y Cynghorydd Emrys Wynne a Gwilym Bury (Archwilio Cymru).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Alan Hughes a Geraint Lloyd-Williams a'r aelod cyfetholedig Terry Flanagan am eu bod yn absennol.

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiadau personol ag eitemau 5 a 6 a hwythau'n llywodraethwyr ar ysgolion Cyngor Sir Ddinbych:

Y Cynghorydd Hugh Irving – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Prestatyn

Y Cynghorydd Carol Holliday – Ysgol Clawdd Offa

Y Cyngorydd Ellie Chard – Ysgol Tir Morfa a hefyd yn gadeirydd Cyngor  
Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Sir Ddinbych  
Y Cyngorydd Gareth Sandilands – Ysgol Clawdd Offa  
Neil Roberts – Ysgol y Parc

### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynnydd Craffu cyn y cyfarfod.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2022. Felly:

***Penderfynwyd: derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2022 fel cofnod cywir.***

Ni chodwyd unrhyw faterion ar sail cynnwys y cofnodion.

### **5 CWRICWLWM CYMRU**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn adolygu'r cynnydd wrth weithredu Cwricwlwm Cymru. Lluniwyd yr adroddiad mewn partneriaeth â GwE a fyddai'n cefnogi ysgolion wrth iddynt roi'r cwricwlwm newydd ar waith.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y cwricwlwm yn dra gwahanol i'r un blaenorol, bod mwy o bwyslais ar sgiliau a bod llai o gyfarwyddo disgyblion. Anogid ysgolion i lunio'r cwricwlwm ar sail anghenion eu dysgwyr. Byddai'r cwricwlwm yn statudol ymhob ysgol gynradd yng Nghymru o fis Medi 2022 ymlaen ac ymhob ysgol uwchradd o fis Medi 2023 ymlaen.

Eglurodd y Pennaeth Addysg nad oedd y cwricwlwm newydd yn cyfarwyddo disgyblion ond ei fod yn rhoi strwythur pendant er mwyn sicrhau bod y 16,500 o fyfyrwyr yn Sir Ddinbych yn tyfu i fod yn uchelgeisiol, galluog, mentrus, creadigol, iach, hyderus a gwybodus am faterion moesegol.

Roedd yn ofyniad statudol i gynnwys Moeseg Cydberthynas a Rhywioldeb yng Nghwricwlwm Cymru o fis Medi 2022 ymlaen ac roedd yn bwnc gorfodol i ddysgwyr rhwng tair ac un ar bymtheg oed. Yn yr un modd, byddai'n ofyniad statudol i ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ond pennid y maes llafur yn lleol. Yn Sir Ddinbych roedd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) wedi argymhell mabwysiadu canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel y maes llafur cytunedig ar gyfer y sir.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r cwricwlwm yn seiliedig ar themâu ac yn canolbwyntio ar sgiliau yn hytrach na chynnwys, ac er y byddai modd addysgu pwnc ar ei ben ei hun, fel mathemateg, er enghraifft, gellid hefyd ei gynnwys wrth gyflwyno maes arall fel dyniaethau.

Roedd ymgynghori'n parhau ynglŷn ag arddull arholiadau TGAU a Lefel A a chymwysterau cyfwerth - hyd oni roddid y cwricwlwm newydd ar waith mewn ysgolion uwchradd - ond roedd disgwyliad serch hynny y byddai yno gymwysterau ym meysydd rhifedd, llythrennedd a gwyddoniaeth ac yn y blaen.

Yn y gorffennol cyflwynwyd adroddiadau ar ganlyniadau addysgol, asesiadau cyfnodau allweddol a chymariaethau â chanlyniadau cenedlaethol yn gyson i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Wrth newid y drefn o blaid addasu'r maes llafur yn lleol yn hytrach na chanolbwyntio cymaint ar ganlyniadau byddai angen newid y dull o adolygu perfformiad. Er y byddai profion safonedig yn parhau ni fyddai'r meincnodau blaenorol yn bodoli mwyach. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar ddull ystyrlon o gyflwyno'r canlyniadau i bwyllgorau craffu yn y dyfodol.

Rhoes swyddogion Sir Ddinbych a GwE y wybodaeth ganlynol wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor:

- Cydnabuwyd yr effaith andwyol ar iechyd meddwl dysgwyr yn sgil y pwysau o eistedd nifer o arholiadau mewn cyfnod cymharol fyr. Rhagwelwyd y byddai ymgynghori â Llywodraeth Cymru a'r byrddau arholi'n golygu bod modd ymchwilio i gyflwyno asesiadau parhaus a ffyrdd eraill o leddfu'r pwysau.
- Darparwyd ychwaneg o grantiau i ysgolion er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a'i ddarparu.
- Roedd y pwnc newydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn wahanol i'r hyn a addysgwyd o'r blaen ac yn ymdrin â systemau cred yn hytrach na chrefyddau ynddynt eu hunain.
- Er yr anogid ysgolion i addasu'r cwricwlwm yn lleol roedd yno 27 o sgiliau craidd y byddai'n rhaid i'r cwricwlwm a fabwysiadwyd roi sylw iddynt. Asesid sgiliau a gwybodaeth y dysgwyr fel o'r blaen, ond byddai 'hynt y daith' yn newid ac roedd gan
- GwE drefniadau rhagorol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, a luniodd y cwricwlwm newydd, a chlystyrau o ysgolion (lleol a chenedlaethol) er mwyn rhannu'r arferion gorau.

Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg eto mai dyma fan cychwyn y daith wrth fesur llwyddiant Cwricwlwm Cymru. Yn ôl pob tebyg byddai'n cymryd deuddeg mis i asesu llwyddiant y cwricwlwm, y gwersi a ddysgwyd a'r hyn y gellid ei alw'n llwyddiant.

Yn dilyn trafodaeth fanwl,

**Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod –**

- (i) derbyn y wybodaeth a gyflwynwyd ynglŷn â'r cynnydd wrth weithredu Cwricwlwm Cymru yn ysgolion Sir Ddinbych; a***
- (ii) gofyn am adroddiad arall mewn deuddeg mis yn manylu ynghylch effeithiolrwydd cyflwyno'r Cwricwlwm yn ysgolion cynradd y sir, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd wrth ei gyflwyno, ac yn egluro'r camau a***

**gymerwyd wrth baratoi ar gyfer darparu'r Cwricwlwm yn holl ysgolion uwchradd y sir o fis Medi 2023 ymlaen.**

## **6 TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd yr adroddiad (a ddsbarthwyd o flaen llaw) yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod Lleol ac ysgolion wrth gyflawni'r gofynion statudol o dan

Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a ddisodlodd God Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2002).

Rhoes y Pennaeth Addysg sicrwydd i'r Pwyllgor fod y newidiadau ym maes ADY yn deillio o ddarn allweddol o ddeddfwriaeth a oedd â'r nod o sicrhau fod ysgolion yn bodloni anghenion addysgol yr holl ddisgyblion. Roedd y cynnydd a wnaed yn y deuddeg mis diwethaf yn cynnwys:

- yr Uwch Dîm Arwain yn darparu hyfforddiant helaeth i reolwyr canol a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol,
- gweithio â'r Fforwm Cyllideb Ysgolion er mwyn sicrhau y dirprwyd cyllid i ysgolion,
- gweithio'n rhanbarthol â Wrecsam, Conwy a Sir y Fflint wrth ddatblygu system TG o'r enw *Eclipse* a oedd yn ymdrin â'r holl brosesau newydd ym maes ADY, ac
- Archwiliad Mewnol o weithredu'r drefn ADY a arweiniodd at sgôr sicrwydd uchel.

Dywedodd y swyddogion fod *Eclipse* yn darparu adroddiadau ar adnabod ADY mewn ysgolion a Chynlluniau Datblygu Unigol. Ni ragwelwyd y byddai llawer o newid yn nifer yr achosion o ADY a gâi eu hadnabod, a oedd oddeutu 400 ar adeg llunio'r adroddiad.

Dechreuodd y drefn drawsnewid mewn ysgolion ym mis Ionawr 2022 pan ddechreuwyd symud o'r drefn Anghenion Addysgol Arbennig i'r system ADY. Nid oedd hynny'n golygu o reidrwydd y byddai rhywun â datganiad o AAA yn cael eu cydnabod i fod ag ADY. Ni ellid pennu niferoedd manwl gywir hyd oni ddeuai'r drefn drawsnewid i ben ym mis Medi 2024.

Rhoes swyddogion y wybodaeth ganlynol wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau:

- darparwyd hyfforddiant a sesiynau cyswllt i drydydd partïon (grwpiau rhieni a llywodraethwyr, er enghraifft).
- roedd gan bob ysgol fynediad ar y system *Eclipse*. Roedd pob clwstwr wedi penodi dau o Gydlynwyr ADY i gael hyfforddiant ar y system *Eclipse*. Byddent hwythau'n hyfforddi eraill wedyn.
- rhoddwyd trefn sefydlu newydd ar waith ar gyfer Cydlynwyr ADY, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar *Eclipse*.
- roedd y gwaith o drawsnewid ADY yn dod yn ei flaen yn unol â'r cynllun ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol ac yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru.



- Nodwyd trawsnewid ADY yn wasgfa ar y gyllideb yn 2021/22 ac o ganlyniad i hynny neilltuwyd ychwaneg o gyllid i'r gwaith.
- Cynhelid archwiliadau o ysgolion er mwyn sicrhau y dosrennid cyllid yn briodol. Roedd y drefn Map Darpariaeth yn golygu bod gofyn i ysgolion fewnbynnu gwir anghenion presennol y plentyn. Roedd hynny'n cynorthwyo ysgolion i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer cefnogi eu disgyblion.

Wedi trafodaeth fanwl,

**Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod –**

- (i) **derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn barod i fodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2018, a**
- (ii) ***gofyn am adroddiad arall i'r Pwyllgor mewn deuddeg mis ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion y Ddeddf ac effeithiolrwydd y system Eclipse wrth adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, eu monitro, eu rheoli a'u cefnogi.***

## **7 ADRODDIAD SEFYDLOGRUYDD Y FARCHNAD GOFAL CYMDEITHASOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i lunio asesiad ar y cyd o ddigonolrwydd a chynladwyedd y farchnad gofal cymdeithasol. Lluniwyd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021a). Hwn oedd y tro cyntaf y lluniwyd Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac roedd yn seiliedig ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.

Roedd yr adroddiad yn asesu digonolrwydd gofal a chymorth o ran bodloni'r anghenion a'r galw am ofal cymdeithasol, yn ogystal â sefydlogrwydd y farchnad.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dros Dro, Gwasanaethau Cymorth Busnes at y negeseuon allweddol ynglŷn â gofal cymdeithasol i oedolion yn Sir Ddinbych, yn ogystal â gostyngiad bychan yn nifer y lleoedd oedd ar gael mewn cartrefi gofal yn Sir Ddinbych. Nid oedd y lleoedd oedd ar gael (gofal preswyl sylfaenol) yn bodloni anghenion cleientiaid am ofal ar gyfer anghenion mwy cymhleth – gofal preswyl a gofal nyrsio i'r henoed bregus eu meddwl.

Nid mater hawdd oedd newid cartrefi preswyl i fedru bodloni anghenion yr henoed bregus eu meddwl. Roedd yr adeiladau'n aml yn anaddas ac nid oedd y ffioedd bob amser yn talu costau'r darparwyr.

Roedd datblygiadau mewn gofal iechyd a meddyginiaeth wedi cael effaith arwyddocaol ar anghenion gofal cymdeithasol. Roedd pobl ag anableddau dysgu'n symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion gyda phecynnau gofal cymhleth y byddai angen eu darparu gydol eu hoes.

Oherwydd yr awydd i gleientiaid gadw'n annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain roedd y galw am ofal cartref wedi cynyddu. Roedd heriau â recriwtio a chadw staff ym maes gofal cartref yn ei gwneud yn anos fyth i sicrhau'r ddarpariaeth.

Roedd gofal seibiant i bobl â chyflyrau iechyd cymhleth – strôc, anaf i'r ymennydd ac yn y blaen – yn brin a byddai hynny'n destun adolygiad yn ystod ymarferion comisiynu yn y dyfodol.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod yr adroddiad yn amlygu materion yr oedd Sir Ddinbych eisoes yn gwybod amdanynt. Yn benodol, prinder y lleoliadau maeth tymor byr oedd ar gael yn lleol, yn enwedig felly i blant ag anghenion cymhleth, yn fewnol ac yn y sector annibynnol. Canolbwyntid ar y lleoliadau penodol hynny wrth gomisiynu yn y dyfodol.

Er bod lleoliadau preswyl ar gael yn Sir Ddinbych tueddai'r rheiny fod yn rhai arbenigol ac yn destun meini prawf penodol. Roedd yn rhaid chwilio ymhellach am leoliadau mwy cyffredinol. Byddai'r gwaith comisiynu yn y dyfodol yn canolbwyntio ar Fwthyn y Ddôl, uned asesu ar y cyd â Chonwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Y meysydd dan sylw yn y dyfodol fyddai:

- Y bwriad i hyrwyddo maethu'n nes at adref wrth gomisiynu, a
- Rhoi cynllun gweithredu ar waith yn y 12-18 mis nesaf ar gyfer y tîm mewnol. Byddai hynny'n cynnwys adolygu'r gefnogaeth graidd a ddarperid i ofalwyr.

Rhoes swyddogion y wybodaeth ganlynol wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau:

- Roedd yno brinder staff gofal cymdeithasol ac argyfwng recriwtio a chadw (ar bob lefel) ledled y Deyrnas Gyfunol.
- Manteisiwyd ar bob cyfle i hyrwyddo / rhoi cyhoeddusrwydd i swyddi ym maes gofal cymdeithasol a gofal maeth, gan gynnwys cefndiroedd sgrin mewn cyfarfodydd ar-lein, ochrau cerbydau fflyd y Cyngor, ffeiriau swyddi ac yn y blaen.
- Sefydlwyd bwrdd arbennig i ymchwilio i amryw ddulliau o roi hwb i recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol. Un o'r meysydd dan ystyriaeth oedd amodau a thelerau. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y byddai ceisio mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw staff drwy amrywio amodau a thelerau'n cael effaith ar swyddi gydol y Cyngor.
- Er mai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig oedd yn berchen ar y tai gofal ychwanegol yng ngogledd y Sir, staff Cyngor Sir Ddinbych oedd yn darparu gofal i'r preswylwyr.
- Roedd y galw am dai gofal ychwanegol dan reolaeth. Pe byddai darparwyr cartrefi gofal preswyl yn dymuno addasu eu darpariaeth roedd Sir Ddinbych yn fodlon trafod hynny â hwy.
- Roedd trafodaeth yn mynd rhagddi yn y rhanbarth ynglŷn â gweithredu dull consortiwm lle byddai'r awdurdod lleol yn gorff arweiniol ar gyfer cynllun prentisiaethau ac yn darparu lleoliadau mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys gofal mewnol a darparwyr allanol.

- O safbwynt sefydlogrwydd y farchnad, y rhain fyddai'r amcanion allweddol dros y deuddeg mis nesaf:
  - sicrhau sefydlogrwydd mewn gofal cartref, gan ystyried microfentrau a darparwyr gwledig, a
  - gweithredu polisiau sy'n ystyriol o faethu yn Sir Ddinbych a pharatoi ar gyfer agor uned asesu breswyl Bwthyn y Ddôl.

Wedi i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a chael atebion i gwestiynau'r aelodau,

**Penderfynwyd:**

- (i) ***argymell cymeradwyo Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru 2022 (Atodiad 1), a***
- (ii) ***chadarnhau fod y Pwyllgor, wrth ystyried y mater, darllen yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 2), ei ddeall a'i gymryd i ystyriaeth.***

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gan hysbysu'r Pwyllgor ei fod yn adroddiad statudol yr oedd yn ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei lunio er mwyn rhoi crynodeb o effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr Awdurdod a phennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mewn blynyddoedd diweddar canolbwyntiwyd ar gynnal adnoddau a'r gallu i gyflawni er mwyn darparu gwasanaethau statudol yn effeithiol a bodloni anghenion pobl Sir Ddinbych.

Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn adlewyrchiad didwyll a theg o'r adrannau Gwasanaethau Oedolion a Phlant a bod angen eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa genedlaethol ym maes gofal cymdeithasol yn y cyfnod dan sylw – adfer wedi'r pandemig Covid a'i effeithiau hirdymor ar berfformiad a'r gallu i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Er gwaethaf hynny nodwyd nifer o lwyddiannau yn yr adroddiad.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr y lluniwyd yr adroddiad ar sail gwaith y tîm gofal cymdeithasol cyfan yn Sir Ddinbych – gan gynnwys darparwyr cyhoeddus a phreifat a gofalwyr ffurfiol ac anffurfiol – a'i fod yn dyst i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled pawb a weithiai i gefnogi oedolion a phlant yn Sir Ddinbych.

Rhoes swyddogion y wybodaeth ganlynol wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau:

- Eid ati i ailgyhoeddi'r gwahoddiad i dendro er mwyn penodi partner adeiladu ar gyfer uned breswyl Bwthyn y Ddôl. Roedd datrysiadau eraill dan ystyriaeth yn y cyfamser ond roedd y Tîm Amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu ac ar waith.
- At ei gilydd datrysid cwynion yn unol â'r terfynau amser heb fod angen eu huwchgwyfeirio. Ychydig iawn o gwynion oedd yn mynd ymlaen i gam 2. Roedd a wnelo'r rhan helaeth o gwynion â chyfathrebu – neu ddiffyg cyfathrebu – ond roedd hyfforddiant a chynnal cyfarfodydd ar-lein yn ystod y pandemig wedi gwella'r sefyllfa.

- Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gofyn i Sir Ddinbych rannu'r data a gasglwyd a'r cwestiynau ar gyfer adolygiad ac adroddiad cenedlaethol o gwynion ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol. Dangosai hynny fod Sir Ddinbych yn sefydliad oedd yn dysgu, yn cymryd cwynion o ddifrif ac yn ymateb yn briodol.
- Dosbarthwyd yr adroddiad cwynion 'Eich Llais' bob tri mis er gwybodaeth. Hysbyswyd yr aelodau y gallent wneud cais i ddod ag eitem gerbron Pwyllgor Craffu pe byddai rhywbeth yn yr adroddiad yn peri pryder.
- Y blaenoriaethau i'w cyflawni yn y deuddeg mis nesaf oedd:
  - recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol,
  - sicrhau darpariaeth gwasanaethau statudol, a
  - sicrhau bod y dull o atal ac ymyrryd mor gadarn â phosib.

Felly:

***Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod, cadarnhau bod Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021-2022 yn rhoi cyfrif eglur o'r perfformiad yn ystod y flwyddyn dan sylw.***

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Yn ôl y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol roedd yno bedair o eitemau ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 29 Medi. Ni chafwyd cadarnhad, fodd bynnag, y byddai'r adroddiad ynglŷn â Hafan Deg ar gael erbyn hynny.

Câi'r tri o adroddiadau y gofynnwyd amdanynt yn gynharach yn y cyfarfod eu cynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn cwrdd ar 28 Gorffennaf a dylai aelodau lenwi'r ffurflen (atodiad 2) i gynnig eitemau i'r grŵp eu hystyried.

Felly:

***Penderfynwyd: yn amodol ar yr uchod, cadarnhau'r rhaglen gwaith i'r dyfodol oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ar ffurf drafft yn Atodiad 1.***

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>29 Medi 2022</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	<b>Y Cyng. Gill German (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd), y Cyng. Emrys Wynne (Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth) / Geraint Davies (Pennaeth Addysg)</b>
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	<b>Geraint Davies (Pennaeth Addysg)</b>
<b>Teitl</b>	<b><a href="#">Categoriaddio Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg</a> (Ymateb Cyngor Sir Ddinbych i newidiadau deddfwriaethol)</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Amlinellu casgliadau ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar [Categoriaddio Iaith](#) a'i oblygiadau ar gyfer Ysgolion a disgyblion Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu Craffu sut y bydd y newidiadau gofynnol yn dilyn yr ymgynghoriad yn effeithio ar ysgolion ac effaith bosibl y penderfyniadau hynny.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estynnir gwahoddiad i Graffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agwedd o'r gwaith a fyddai'n elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'n rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru roi gwybod i rieni a Llywodraeth Cymru ym mha iaith y maent yn bwriadu addysgu. Yng Nghymru, gall hyn fod drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu gyfuniad o'r ddwy iaith.

- 4.2. Mae'r polisi presennol ar gyfer categorïddio ysgolion wedi bod ar waith ers 2007. Drwy gyhoeddi Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn 2017 ac yn fwy diweddar, Cwricwlwm i Gymru, amlygwyd yr angen i adolygu'r polisi ar gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- 4.3. Daeth y trefniadau newydd ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl faint o ddarpariaeth Gymraeg sydd yn yr ysgol i rym o fis Medi 2022 a bydd y rhan o'r ffurflen statudol Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr 2024.
- 4.4. Mae nifer y categorïau ysgolion yn cael eu cwtogi i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd.
- 4.5. Er bod tri chategori yn cael eu cyflwyno ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd, nid yw'r un meini prawf yn cael eu defnyddio i ddiffinio natur y ddarpariaeth. Mewn ysgolion cynradd, gellir categorïddio'r ddarpariaeth iaith a gynigir yn hytrach na'r ysgol gyfan fel sefydliad, sy'n golygu y gallai ysgol gynradd fod yn ysgol Categori 1, 2 neu 3 neu gyfuniad o Gategori 1 a 2, neu Gategori 2 a 3 yn dibynnu ar y ddarpariaeth a gynigir (e.e. os oes dwy ffrwd ar waith yn yr un ysgol).
- 4.6. Yn y sector uwchradd, bydd ysgolion yn cael eu categorïddio fel sefydliadau cyfan, er mae'n bosibl y bydd angen cynlluniau datblygu penodol ar gyfer ysgolion uwchradd sydd â ffrwd Gymraeg ar hyn o bryd.
- 4.7. Gan mai un o fwriadau'r system gategoreiddio newydd yw annog mwy o ysgolion i gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae dau is-gategori pontio yn y sector cynradd a dau yn y sector uwchradd, i hwyluso'r broses i ysgolion sy'n symud i'r categori nesaf. Mae hwn yn ei le i ganiatáu i ysgolion ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros gyfnod estynedig. Gweler **Atodiad 1** ar gyfer disgrifiadau o'r Categoriâu.

Yr egwyddor yw peidio â lleihau'r ddarpariaeth - Un o brif egwyddorion cyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol na'r hyn a gynigiwyd yn y gorffennol.

- 4.8 Bydd angen gosod pob ysgol mewn categori newydd erbyn mis Medi 2022 a bydd hyn yn dod i rym yn dilyn CYBLD 2024.
- Yn Sir Ddinbych, bydd y 27 darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg presennol yn trosglwyddo i Gategori 1.
  - Felly hefyd, bydd yr 14 darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i Gategori 3.
  - Bydd angen dyrannu categori i weddill yr ysgolion cynradd sef un o'r tri phrif gategori neu un o'r ddau gategori pontio os yw'n briodol.
- Dylid nodi bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 a gymeradwywyd gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd pob ysgol Categori 2 yn Sir Ddinbych yn y dyfodol yn darparu Addysg Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig er mwyn cefnogi trochi a rhoi mwy o ddewis i ddisgyblion yn 7 oed.
- 4.9 Bydd ysgolion oedd yn CAT 4 yn flaenorol (Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg) yng nghategori pontio T2. Gweler **Atodiad 2** ar gyfer llwybrau pontio a awgrymir.
- 4.10 Mae cynnydd ieithyddol yn Gymraeg yn dod yn fwy anodd wrth i ddysgwyr bontio i'r sector uwchradd ac yn cynyddu wrth iddynt symud o un flwyddyn i'r llall. Gweler **Atodiad 1** ar gyfer disgrifiadau o'r Categoriâu.
- 4.11 Yn Sir Ddinbych, bydd y 5 darpariaeth ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg presennol yn trosglwyddo i Gategori 1. Felly hefyd, bydd Ysgol Glan Clwyd, sef y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol yn trosglwyddo i Gategori 3P.
- 4.12 Nid yw'r opsiynau ar gyfer categorïau Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran yn y dyfodol mor glir a byddant yn cael eu hystyried yn unigol.
- 4.13 Mae'r ddarpariaeth yn Ysgol Brynhyfryd wedi ei threfnu i ffrydiau Cymraeg a Saesneg. Ar gyfartaledd, mae 40% o bob grŵp blwyddyn yn mynychu'r ffrwd Gymraeg. Mae disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn cael o leiaf 80% o'u pynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) wedi'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, o fis Medi 2022 mae Ysgol Brynhyfryd wedi ymrwmo i sicrhau y bydd y cynnig Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gyfartal â'r cynnig Saesneg o ran

opsiynau, sy'n golygu y bydd disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn cael 100% o'u pynciau wedi'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 4.14 Mae'r ddarpariaeth yn Ysgol Dinas Bran wedi ei threfnu i ffrydiau Cymraeg a Saesneg. Ar gyfartaledd, mae 12% o bob grŵp blwyddyn yn mynychu'r ffrwd Gymraeg. Mae disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn cael o leiaf 80% o'u pynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) wedi'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.15 Mae gwerthusiad opsiynau ar y gweill i adolygu posibiladau a chanlyniadau'r categorïau ieithyddol gwahanol i Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran.
- 4.16 **Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** - Bydd goblygiadau o ran cludiant cyfrwng Cymraeg. Ym mholisi Cludiant Dysgwyr presennol Sir Ddinbych (Adran 3.3), mae'n nodi "Ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg, byddai'n ysgol sydd wedi ei chategoreiddio fel naill ai 1 neu 2 o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer categori 2, byddai'n ysgol lle yr addysgir o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond maent hefyd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg." Nid yw'r gofyniad categori 2 Uwchradd newydd (o leiaf 40%) yn cymharu â'r cynnig cyfrwng Cymraeg presennol ac felly bydd hyn yn cael effaith ar gymhwysedd dysgwyr i'w cynnig cyfrwng Cymraeg agosaf. Felly, bydd yn rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi canllawiau eglurhaol newydd i ddehongli hyn o ran y Polisi i adlewyrchu'r broses gategoreiddio cyn iddi gael ei chyflwyno yn 2024.
- 4.17 Ar hyn o bryd mae gan Awdurdodau ddyletswydd o dan Adran 10 Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes gan Sir Ddinbych y gallu i ail-ddiffinio, drwy'r canllawiau eglurhaol, sut y bydd cludiant yn cael ei ddarparu o ran y categorïau newydd; bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cynnwys mewn diwygiad i'r Polisi yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru eu hunain yn ystyried yr ymgynghoriad a gynhaliwyd y llynedd o ran diweddariadau i'r Mesur Teithio Dysgwyr, felly bydd yn rhaid i'r Awdurdod aros nes bydd hyn wedi cael ei wneud gan y gallant ddewis ymdrin â 'hyrwyddo mynediad' at y Gymraeg drwy drawsgyfeirio'r categorïau newydd yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth cludiant.



## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r prosiect yn cysylltu â'r flaenoriaeth gorfforaethol Pobl Ifanc yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022 ac mae hefyd yn rhan annatod o'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Ddinbych.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Bydd costau'n cael eu talu o'r cyllidebau presennol a bydd y cynigion yn mynd gerbron y Fforwm Cyllideb Ysgolion os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r fformiwla cyllido ysgolion.

6.2. Mae cynnydd posibl mewn Costau Cludiant Disgyblion yn risg yn dibynnu ar benderfyniadau ar gategoreiddio ysgolion. Mae angen gwneud mwy o waith i ddeall yr effaith ar y Polisi Cludiant Ysgolion yn llawn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Bydd unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael ei gwblhau fel rhan o unrhyw gynigion aildrefnu ysgolion yn ôl gofynion y Cod ynghyd ag adolygu'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Yr adroddiad Craffu hwn yw'r craffu cyntaf gan Aelodau o ran categorïau iaith ysgolion. Cynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru â'r holl fudd-ddeiliaid perthnasol rhwng 14 Rhagfyr 2020 a 26 Mawrth 2021. Mae manylion y canlyniad a [chrynodeb o ymatebion](#) ar gael.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Gan fod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar hysbysu ac annog trafodaeth, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn Adran 6, mae'n debygol y bydd cynnydd mewn costau oherwydd y newidiadau gofynnol. Bydd angen dod ag unrhyw bwysau na ellir ei gynnwys mewn adnoddau presennol (e.e. effaith ar Gludiant Ysgolion) drwy'r broses cyllideb flynyddol ar yr adeg briodol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Codwyd pryderon gan eraill gyda'r Esgobaeth, aelodau a swyddogion Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd a Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych am y cynnydd i newid cymeriad ieithyddol ysgolion.


10.2. Gallai unrhyw newid mewn polisi gael effaith a pheri risg i'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd gan y Cabinet ac a gyhoeddwyd.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu cynigion ysgolion a datblygu cynigion i aildrefnu darpariaeth ysgolion.

11.2. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adrannau 7.2.3 a 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## Categoriâu Ysgolion – Y Sector Cynradd



### Categori 1 - Ysgol Cyfrwng Saesneg

Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwyr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwranddo yn Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu, a bydd ganddo rywfaent o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

### Categori 2 - Ysgol Dwy iaith

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwyr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwranddo yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu'r cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr.

Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3.


Bydd o leiaf 50% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Gellid cyflawni hyn mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Gallai fod drwy ddefnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda dewis yn cael ei gynnig yn y grwpiau blwyddyn eraill, neu, bod 50% o weithgareddau'r ysgol yn Gymraeg drwyddi draw.

### **Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg**

Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.

O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

## Categoriâu Ysgolion – Y Sector Uwchradd



### Categori 1 - Ysgol Cyfrwng Saesneg

Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg.

Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn cael ei addysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, a bydd yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwranddo yn Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

### Categori 2 - Ysgol Dwy iaith

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg.

Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwranddo yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan ddibynnu ar faint o amser a neilltuir i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, byddai dysgwyr yn gallu defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn ystod o wahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad.

Bydd o leiaf 40% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 40% o weithgareddau ysgol (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

### **Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg**

Mae ysgolion yn y categori hwn wedi'u rhannu'n ddwy ran: Categori 3 Cyfrwng Cymraeg a Chategori 3P Cyfrwng Cymraeg penodedig.

Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen.



Mae'r rhain yn ysgolion sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu.



Bydd ysgol **Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg** yn cynnig ystod eang o'u Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd o leiaf 60% o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwrwclaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Bydd disgwyl i bob ysgol Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal tra'n gweithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser. Bydd ysgol **Categori 3P – Ysgol Cyfrwng Cymraeg Penodedig** yn cyflwyno pob Maes Dysgu a Phrofiad (Maes) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd 100% o ddysgwyr ymgymryd ag o leiaf 90% o'u gweithgareddau ysgol (cwrwclaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.







<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>29 Medi 2022</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	<b>Y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Ann Lloyd, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Dros Dro</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Nigel Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau a Chymunedau</b>
<b>Teitl</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf am Ganolfan Ddydd Hafan Deg</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yng Nghanolfan Ddydd Hafan Deg

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag effeithiolrwydd trosglwyddo'r cyfleuster a'r gwasanaethau i ddarparwr allanol, KL Care, gan gynnwys cynnydd y darparwr o ran datblygu ac ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y ganolfan, a'r gwersi a ddysgwyd o Covid-19.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Craffu yn:

3.1. ystyried ac yn rhoi sylwadau ar y wybodaeth a ddarperir, ac yn

3.2. cefnogi parhad yr arfer o fonitro'n chwarterol, gyda'r bwriad o sicrhau bod cynlluniau ar gyfer y Ganolfan yn cael eu cyflawni a bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyrraedd.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae'r Ganolfan wedi llwyddo i gynyddu presenoldeb dinasyddion yn dilyn amseroedd anodd yn ystod pandemig Covid-19, ac mae bellach yn hollol weithredol eto fel canolfan ddydd ar ôl bod ynghau pan oedd Covid ar ei anterth.
- 4.2. Fodd bynnag, bu effeithiau'r pandemig ar y Ganolfan yn sylweddol, yn arbennig wrth oedi cynlluniau ar gyfer ehangu'r gwasanaethau a gynigir. Mae pob darparwr gofal cymdeithasol wedi gorfod dysgu gwersi ac addasu yn dilyn effeithiau digynsail y pandemig, gan gynnwys archwilio eu gwytnwch eu hunain, cynlluniau wrth gefn, a cheisio darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd.
- 4.3. Mae'r holl wasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i gael trafferthion hefyd oherwydd yr argyfwng recriwtio sylweddol ym maes gofal cymdeithasol a'r cynnydd mewn costau byw. Fodd bynnag, gan ein bod wedi mynd y tu hwnt i'r ymateb brys i'r pandemig, yr ydym angen gweithio'n agos gyda'r Ganolfan er mwyn canolbwyntio eto ar gynlluniau ar gyfer datblygu ei gweithgareddau. Bydd CSDd yn gweithio gyda Hafan Deg i wneud hynny, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd gan gomisiynydd a darparwr wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y contract hwn a sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned.
- 4.4. Ar y dechrau, bu ychydig o broblemau gyda phreswylwyr Cwrt y Gofeb Ryfel yn mynd i'r ganolfan ddydd, yn bennaf oherwydd pryderon ynglŷn â rheoli heintiau (pan oedd y pandemig wedi lleddfu, ond â Covid-19 yn parhau i ledaenu). Mae preswylwyr Cwrt y Gofeb Ryfel bellach yn mynd i'r Ganolfan ar gyfer prynhawniau coffi a nosweithiau bingo, ac mae perthnasoedd wedi gwella'n fawr. Mae hyn yn brawf o'r cyfathrebu agored a'r hyblygrwydd mae'r holl bartïon wedi eu cynnig.
- 4.5. Hefyd, y mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod preswylwyr Cwrt y Gofeb Ryfel, ochr yn ochr â dinasyddion Hafan Deg, yn cael y cyfle i ddefnyddio cyfarpar TG yn y Ganolfan. Dylai hyn ddarparu adnodd cymunedol gwerthfawr, gan gynnal gwell cysylltiadau cymunedol a lles ar yr un pryd.
- 4.6. Yn ystod ymweliad monitro contract yn ddiweddar (Mehefin 2022), er y nodwyd nifer o feysydd ar gyfer eu gwella, yr oedd y rheiny a oedd yn mynd i'r ganolfan yn ymddangos yn hapus ac wedi ymlacio. Yr oedd y staff yn gyfeillgar ac yr

oedd yn amlwg eu bod yn adnabod yr unigolion yn dda. Mae'r Ganolfan, yn y bôn, yn parhau i ddarparu gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn i'r holl ddinasyddion sy'n mynd yno, gan gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, y pum ffordd at les, a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- 4.7. Yr ydym ar hyn o bryd yn datblygu cynllun gweithredu gyda KL Care er mwyn cynorthwyo'r Ganolfan i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella, a chymryd y camau cywiro a datblygu sydd eu hangen i alluogi'r gwasanaeth i fodloni gofynion y contract yn llawn.
- 4.8. Mae'n rhaid monitro contract yn gadarn ac yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cynlluniau ar gyfer y ganolfan yn cael eu cyflawni, a bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyrraedd. Tarfodd y pandemig yn sylweddol ar weithgareddau monitro contract hefyd; mae CSDd yn parhau i weithio ar ddod â'r holl fonitro'n gyfredol, ac mae dychwelyd i ddarparu gwybodaeth monitro perfformiad yn rheolaidd o Hafan Deg yn gam allweddol yn ei gynllun gweithredu newydd, a fydd yn cael ei fonitro'n agos.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1. Mae'r gwasanaethau presennol yn Hafan Deg eisoes yn ategu blaenoriaethau corfforaethol yn ymwneud â chymunedau cryfion a chymunedau wedi eu cysylltu – a bydd cynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y Ganolfan yn gwella hyn ymhellach.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gael ei ddarparu o fewn costau pendant y contract.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

- 7.1. Oherwydd effeithiau Covid-19, nid yw'r cynlluniau ar gyfer ehangu'r gwasanaethau yn y ganolfan ddydd wedi eu cyflawni eto. Felly, nid yw'r gwasanaethau a gynigir gan y ganolfan lawer gwahanol yn eu hanfod i'r rheiny a oedd yno adeg yr asesiad effaith blaenorol (Atodiad 1). Argymhellir ailymweld

â'r Aseiad o'r Effaith ar Les pan fydd camau gweithredu allweddol wedi eu cyflawni yn unol â chynllun gweithredu KL Care, a'r gwaith o ehangu gweithgareddau yn y Ganolfan wedi aildechrau o ddifrif, gan ein bod bellach yn gwella o effeithiau uniongyrchol y pandemig.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Amherthnasol

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Amherthnasol

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

